# PWYLLGOR IAITH DYDD MERCHER 1 MAI 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, (Cadeirydd)

**Y CYNGHORWYR:** Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Ll. Evans, Judith Mary Humphreys, Charles Wyn Jones, Elwyn Jones, Eric M Jones, Kevin Morris Jones, Olaf Cai Larsen, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Elfed Williams,

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith), Gwenllïan Mair Williams (Swyddog Datblygu Iaith Gweithle), Rhonwen Jones (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**ERAILL A WAHODDWYD:** Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Is Gadeirydd y Cyngor)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen; Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet – Iaith)

Ar gyfer eitem 7; Bet Huws (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd (Meirionnydd), Ifan Llewelyn Jones (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelod Cabinet a swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elin Walker Jones

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 17eg Ionawr, 2019 fel rhai cywir.

## • ADRODDIAD YR AELOD CABINET

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Iaith.

Esboniwyd y rhoddir dwy wobr flynyddol yn Seremoni gwobrwyo'r Cyngor ar ei Orau, fel a ganlyn:

- I gydnabod unigolyn o fewn y Cyngor sydd yn dysgu'r Gymraeg, ac yn ail,
- Unigolion neu dimau sydd yn gwneud ymdrech arbennig, neu yn mynd y tu hwnt i'w swyddi arferol, i hybu'r Gymraeg i sicrhau bod posib i drigolion a defnyddwyr gwasanaethau ddefnyddio'r Gymraeg yn ddi-rwystr.

Dyfarnwyd y gwobrau eleni i Nancy Wilkinson (Swyddog Amgylchedd yn Ymgynghoriaeth Gwynedd) a Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant (am eu gwaith i sicrhau adnoddau Cymraeg ar gyfer hyfforddiant 'The Institution of Occupational Safety and Health' (IOSH).

Cyflwynwyd dau fideo o'r seremoni wobrwyo ar ddiwedd y cyfarfod yn dangos yr enillwyr.

Tynnwyd sylw gan aelod at eitem 5.4 (Datblygiadau Eraill), Canllaw Cynllunio Atodol. Awgrymodd yr Aelod Cabinet iddi gyfarfod gyda'r Aelod i drafod ymhellach.

**Penderfynwyd:**
Derbyn yr adroddiad.

6. **ADRODDIAD CANMOLIAETH A CHWYNION MAES Y GYMRAEG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Datblygu Iaith a nodwyd ei fod yn edrych ar gwynion a chanmoliaeth law yn llaw, er mwyn gallu adnabod tueddiadau a rhoi darlun llawn i'r aelodau o'r hyn sydd yn digwydd o fewn y Cyngor o safbwynt cydymffurfio gyda'r Safonau a'r Polisi Iaith.

**Canmoliaeth**
Esboniwyd fod yr adroddiad yn dangos dau achos penodol sydd wedi dod i sylw dros y misoedd diwethaf lle mae swyddogion y Cyngor wedi mynd y tu hwnt i'r gofyn i hyrwyddo'r Gymraeg ac i sicrhau bod trigolion yn cael gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o safon:

1. **Hyfforddiant diogelwch (IOSH)**: Cafodd y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant eu cydnabod yng ngwobrau'r Cyngor ar ei Orau yn ddiweddar am eu gwaith i sicrhau bod modd cael hyfforddiant IOSH yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers cryn amser, roedd staff y Cyngor wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddi cyfrwng Cymraeg yn y maes hwn, ond yn gorfod defnyddio deunyddiau Saesneg yn unig gan nad oedd y corff siartredig yn darparu deunyddiau dwyieithog. Roedd y mater wedi ei gyfeirio at y Comisiynydd er mwyn cael eu cefnogaeth nhw i ddwyn pwysau ar y darparwyr, ond yn y pen draw, ymdrechion swyddogion y Cyngor, dynnodd sylw at ofynion y safonau a galwadau gan staff am ddeunyddiau Cymraeg,

2. **Ffurflen ar-lein newydd direct.gov ar gyfer Bathodyn Glas**

   Nodwyd bod Rheolwr Siopau Gwynedd a Galw Gwynedd a'i swyddogion yn gweithio'n galed ar hyn o bryd i sicrhau bod y ffurflen ar-lein newydd ar gyfer ceisiadau Bathodyn Glas yn cwrdd â gofynion y Safonau a Pholisi'r Cyngor. Roedd y swyddogion wedi sylwi wrth brofi'r system (cyn mynd yn fyw) bod nifer o wallau a chamgymeriadau gyda'r fersiwn Gymraeg, ac mae'r Cyngor wedi gwrthod trosglwyddo i'r system ar-lein newydd heb i'r newidiadau gael eu gwneud i gyrraedd y safon ddisgwyliedig. Maent wedi bod yn cydweithio gyda'r uned gyfieithu a thîm y we i wirio'r system, ac wedi codi'r mater efo'r darparwr gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae trafodaethau yn parhau ar hyn o bryd a'r system yn dal heb fynd yn fyw.

**Cwynion**
Ers dechrau 2019, derbyniwyd gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg am dair cwyn yn ymwneud efo'r Safonau Iaith.

Penderfynodd y Comisiynydd beidio ag ymchwilio ymhellach i'r cwynion ar sail yr esboniadau isod:

1. E-bost safonol Saesneg yn unig wedi ei anfon mewn ymateb i e-bost Cymraeg anfonwyd at GwE. Penderfynwyd peidio ag ymchwilio wedi i'r Comisiynydd dderbyn gohebiaeth gan uned Gyfreithiol y Cyngor oedd yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd Safonau'r Cyngor yn berthnasol i GwE oherwydd eu statws fel cydbwyllgor.

2. Derbynneb uniaith Saesneg wedi ei hanfon gan Bartneriaeth Prosesau Cosb Cymru. Esboniwyd bod hyn wedi digwydd o ganlyniad i nam technegol ar ôl i'r gweinyddwyr wneud diweddariadau i'r system dalu. Roedd y mater eisoes wedi dod i sylw'r Cyngor ac wedi ei ddatrys erbyn derbyn y gŵyn gan y Comisiynydd, a chytunodd y Comisiynydd bod y Cyngor eisoes wedi delio gyda'r mater yn briodol.

3. Gwasanaeth cynnal asesiadau a phrosesu ceisiadau Bathodyn Glas. Cadarnhaodd y Cyngor mai gwasanaeth dan reolaeth y Llywodraeth yw hwn, a bod y Cyngor eisoes wedi derbyn sawl cwyn am y gwasanaeth ac wedi cyfeirio pryderon am safon y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg at y Llywodraeth. Wedi'r ymateb, cytunodd y Comisiynydd nad oedd cyfrifoldeb ar y Cyngor am y mater, ac maent wedi cyfeirio'r gŵyn a phryderon Cyngor Gwynedd ymlaen at yr adran berthnasol yn y Llywodraeth.

**PENDERFYNWYD:**
Derbyn yr adroddiad.

- **HUNANIAITH - MENTER IAITH GWYNEDD**

Mewn ymateb i gais y Cadeirydd cyflwynwyd diweddariad ar waith Hunaniaith, gan amlinellu llwyddiannau, gwersi a ddysgwyd, a chymryd y cyfle i godi ymwybyddiaeth yr Aelodau o'r gwaith.

**Trosolwg o waith 2018-19**
Adroddwyd fod 2018-19 wedi bod yn flwyddyn dda o ran parhau i ddatblygu rhai partneriaethau allweddol, megis gyda Chymraeg i Blant a Grŵp Llandrillo Menai, a'i bod yn ymddangos bod y buddsoddiad amser i gyd-gynllunio a chydweithio yn dechrau talu.

Yn ogystal, nodwyd bod y cydweithio ar draws y Mentrau Iaith yn gyffredinol wedi datblygu ymhellach, gyda Mentrau Iaith Cymru (y sefydliad ambarél sy'n cefnogi gwaith y mentrau ar draws Cymru) yn arwain at sawl prosiect cenedlaethol. Mae cyfleoedd hefyd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng mentrau iaith rhanbarth y Gogledd yn y dyfodol.

**Cafwyd dau gyflwyniad gan y Swyddogion Iaith:**

**Blynyddoedd Cynnar**
Esboniwyd fod seminarau wedi eu cynnal er mwyn arfogi gweithlu'r blynyddoedd cynnar a darparwyr gweithgareddau gyda'r wybodaeth i fynd a'r neges am werth dwyieithrwydd at deuluoedd. Nodwyd fod yr adborth o'r seminarau wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac er na lwyddwyd i ddenu rhai o'r busnesau a mudiadau sy'n darparu gweithgareddau teuluol oedd wedi eu targedu, teimlai'r Swyddog bod y digwyddiadau wedi bod yn llwyddiant, ac y bwriedir parhau i gydweithio gyda Chymraeg i Blant a Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar y Cyngor ar ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

**Targedu Pobl Ifanc oedran 15+:**
Cynhaliwyd cynhadledd i bobl ifanc i drafod gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer byd gwaith, gan gyflwyno arfer da a modelau rôl o feysydd proffesiynol a galwedigaethol. Nod y gynadle oedd annog pobl ifanc i feddwl am eu dewisiadau gyrfaol gan roi sylw penodol i ystyried y Gymraeg yn eu dewisiadau.

Cynhaliwyd y gynhadledd ar y cyd gyda swyddogion Grŵp Llandrillo Menai, a chanolbwyntiwyd ar fyfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai gyda sectorau Adeiladwaith, Gwallt a Harddwch a Lletygarwch a Thwristiaeth. Cafwyd adborth da a chytunwyd bod cynnwys y sesiynau yn fuddiol a phriodol ond bod angen ambell fireiniad megis symleiddio geirfa, a chynnwys llai o gwestiynau agored, fel modd i hwyluso cyfranogiad a thrafodaethau.

Cynhaliwyd cyfarfod cloriannu ar ôl y digwyddiadau a chytundeb ymysg y swyddogion bod y gynhadledd wedi llwyddo o ran y trefniadau a chynnwys, er bod angen ambell fireiniad a man addasiadau os am gynnal digwyddiad tebyg yn y dyfodol. Un pryder a fynegwyd oedd y trafferthion a gafwyd wrth ennyn diddordeb ac ymrwymiad tiwtoriaid y grŵp.

Mynegodd yr Aelodau siom yn hyn, gan nodi awydd i gymryd camau pellach. Nododd Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd ei bod am ysgrifennu yn swyddogol at Grŵp Llandrillo Menai i rannu'r adborth ar werthusiad am y cynadleddau er mwyn rhannu'r pryderon. Cynigodd Aelod y pwyllgor y byddai yn fodlon ysgrifennu llythyr at Grŵp Llandrillo Menai, ar ran y pwyllgor.

Derbyniwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi cwestiynau cyffredinol am waith Hunaniaith, gofynnwyd yr Aelodau sut roedd Hunaniaith yn dewis yr ardaloedd i dargedu. Mewn ymateb, nodwyd bod yr ardaloedd oedd wedi derbyn sylw dros y tair blynedd ddiwethaf wedi eu dewis yn bennaf ar sail data'r cyfrifiad ac argymhellion gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd bod angen edrych ar ffynonellau data eraill, megis y Siarter Iaith, er mwyn gwneud penderfyniadau am le i dargedu yn y dyfodol.

**Cymraeg Byd Busnes**
Cyflwynwyd y wybodaeth gan Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd ar ran Paul Carrol Jones (Byd Busnes).

Un o'r prosiectau mae Menter Iaith Cymru (MIC) yn gyfrifol amdanynt ar lefel genedlaethol yw prosiect Cymraeg Byd Busnes.

**Nod y prosiect yw:**

- Cynnig cefnogaeth a chyngor i fusnesau ar eu defnydd o'r Gymraeg.
- Gwasanaeth rhad ac am ddim.
- Wedi ei deilwra yn bennaf at fusnesau bach a chanolig a busnesau micro.

Esboniwyd y gallai busnesau bach yng Nghymru ofyn am gymorth gyda chyfathrebu, archebu nwyddau, llunio gwefannau a chysylltu gyda'r cyfyngau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Esboniwyd hefyd fod cefnogaeth ar gael i hysbysebu a recriwtio staff ac y gellid cael darpariaeth cyfieithu am ddim.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiad.

**8. CYFARFODYDD PWYLLGOR IAITH**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, er mwyn ceisio barn Aelodau'r Pwyllgor ar amlder a nifer cyfarfodydd y Pwyllgor mewn blwyddyn.
Nodwyd barn yr Aelodau fod angen cadw at y niferoedd presennol o gyfarfodydd, gan ddatgan pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg i bawb.

**PENDERFYNWYD:**

Parhau gyda'r drefn gyfredol o gynnal pedwar cyfarfod o'r pwyllgor mewn blwyddyn.

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30yb.a daeth i ben am 11.40yb.

**CADEIRYDD**